IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 5 IONAWR 2021

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Dianne Rees |

1 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.
PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael ei wahardd o’r cyfarfod ar benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ynghylch yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYD HACNI/LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan gynrychiolydd cyfreithiol gyrrwr. Ni fynychodd y gyrrwr y gwrandawiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y rhoddwyd 8 pwynt cosb gyrru yn y llys am yrru cerbyd heb yswiriant dilys. Datganwyd y pwyntiau cosb wrth adnewyddu trwydded y gyrrwr.

Amlinellodd y cynrychiolydd yr amgylchiadau a arweiniodd at gyflawni’r drosedd. Roedd y gyrrwr wedi gollwng teithwyr yn yr orsaf fysus yng Ngerddi Sophia. Ar ôl iddo ollwng ei deithwyr, fel cymwynas i yrrwr arall, roedd wedi cytuno i fynd â theulu i’r maes awyr oherwydd eu bod wedi colli eu bws. Ni ddisgwyliodd y gyrrwr gael ei dalu ond ad-dalodd y teulu £160 iddo i dalu am gostau tanwydd a’i dreuliau. Dywedodd y cynrychiolydd fod y gyrrwr yn cydnabod ei fod wedi cyflawni trosedd, nid oedd wedi bwriadu ceisio denu taliadau anghyfreithlon. Dywedodd y cynrychiolydd fod gan y gyrrwr yswiriant ar gyfer ei gerbyd, a dim ond o ganlyniad i’r drosedd roedd ei yswiriant yn annilys. Roedd yn ymwybodol o’i gyfrifoldebau yn nhermau’r gyfraith ac amodau ei drwydded a glynodd at y rhain bob amser.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor pam nad oedd y gyrrwr yn bresennol yn y gwrandawiad. Dywedodd y cynrychiolydd i’r gyrrwr gael ei gynghori gan y Swyddfa Drwyddedu nad oedd rhaid iddo fod yn bresennol ac felly penderfynodd peidio â gwneud. Ystyriodd yr Aelodau, o dan yr amgylchiadau hyn, y byddai wedi bod yn fuddiol i’r gyrrwr fod yn bresennol er mwyn rhoi ei fersiwn ef o’r digwyddiadau, rhoi eglurhad ac ateb cwestiynau gan yr Is-bwyllgor.

Gofynnodd Aelod o’r Is-bwyllgor i’r cynrychiolydd i ba faes awyr roedd y gyrrwr wedi mynd ar y daith hon nad oedd wedi’i threfnu ymlaen llaw.

Atebodd y cynrychiolydd yr aeth ef â'r teithwyr i Faes Awyr Heathrow. Dywedodd Aelod o'r is-bwyllgor ei bod yn teimlo bod hyn yn doriad difrifol a phe bai damwain wedi bod yn ystod y daith hon, ni fyddai'r teithwyr wedi'u hyswirio.

PENDERFYNWYD - Bod trwydded yrru Cerbyd Hacni/Llogi Preifat y gyrrwr yn cael ei dirymu oherwydd derbyn euogfarnau am geisio denu teithwyr heb drwydded dan Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 ac am fod heb yswiriant dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988. Gwnaed y penderfyniad yn unol â pharagraffau 5.39 a 5.40 Canllawiau'r Cyngor ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwydded yn y Busnesau Cerbyd Hacni a Llogi Preifat.

(2) Cais 2

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cwyn wedi dod i law gan breswylydd Caerdydd ynglŷn ag ymddygiad gyrrwr. Honnodd y gŵyn fod gyrrwr wedi parcio ei gar y tu allan i gartref preswylydd ac wedi pasio dŵr yn y lôn wrth ochr y tŷ. Roedd y preswylydd wedi nodi rhif cofrestru'r cerbyd ac wedi cyflwyno tystiolaeth ar ffurf ffotograff o'r digwyddiad.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yrrwr ynglŷn â'r digwyddiad hwn. Derbyniodd y gyrrwr fod y cerbyd yn eiddo iddo ef ac nad yw unrhyw yrwyr eraill yn defnyddio'r cerbyd. Cadarnhaodd y gyrrwr hefyd ei fod yn gweithio ar adeg y digwyddiad. Roedd wedi gwirio gyda'i gyflogwr ac roedd wedi gollwng teithiwr yn yr ardal tua'r adeg yr honnir bod y digwyddiad hwn wedi digwydd. Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi gwirio system teledu cylch cyfwng fewnol y cerbyd ond ysgrifennwyd dros unrhyw ffilm o'r dyddiad dan sylw. Gwadodd y gyrrwr ei fod wedi pasio dŵr yn gyhoeddus. Datganodd y byddai fel arfer yn mynd adref, yn mynd i fosg neu ddefnyddio cyfleuster cyhoeddus arall pe bai angen defnyddio'r toiled arno tra ei fod ar ddyletswydd.

PENDERFYNWYD - y dylid atal y drwydded yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Llogi Preifat am 2 ddiwrnod oherwydd ymddygiad annerbyniol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am